

Cyngor ar gymryd nodiadau

Mae cymryd nodiadau'n **sgil academaidd pwysig**. Mae gwneud nodiadau eglur cryno yn eich geiriau eich hun yn gwneud dau beth pwysig:

- Mae'n eich helpu i gadw, deall a galw gwybodaeth i gof.
- Mae'n helpu i atal llên-ladrad.

Mae **dau ddull gwahanol** o gymryd nodiadau. Maent yn cael eu disgrifio'n aml fel y dull **llinol neu anlinol**.

Beth bynnag yw'r dull o gymryd nodiadau sydd orau gennych, dyma rai awgrymiadau cyffredinol:

1. Mae cymryd nodiadau mewn darlith yn **haws os ydych wedi paratoi**, er enghraifft: wedi darllen taflenni gwaith, wedi mynd trwy'r sleidiau cyn y ddarlith, wedi darllen deunydd cefndirol, yn gwybod beth i'w ddisgwyl.
2. **Peidiwch** â chopïo'r sleidiau nac ysgrifennu union eiriau'r darlithydd. Meddyliwch am y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i hysgrifennu yn eich geiriau eich hun.



3. **Ysgrifennwch yn gryno.** Peidiwch â cheisio ysgrifennu brawddegau, dim ond y termau allweddol a'r prif bwyntiau.
4. Defnyddiwch lawfer, **symbolau neu fyrfoddau hawdd eu hadnabod.**
5. Os ydych yn **colli rhywbeth**, neu os nad ydych yn deall rhywbeth yn llawn, gwnewch nodyn gan gynnwys rhif y sleid, ac ewch yn ôl ato neu gofynnwch gwestiwn i'r darlithydd.
6. **Nodwch y dyfyniadau** neu'r cyfeiriadau a ddefnyddir mewn darlith. Gallant fod yn ddefnyddiol fel man cychwyn ar gyfer ymchwil annibynnol.
7. Cyn dechrau cymryd nodiadau, nodwch **y dyddiad, y modiwl a'r ddarlith.**
8. **Rhowch grynodedb** o'r ddarlith mewn rhagarweiniad ar ddechrau'r nodiadau ac yna mewn crynodeb ar y diwedd.
9. Wrth gymryd nodiadau meddyliwch am y dull **Cwestiwn/Tystiolaeth/Casgliad:**
 - a. **Cwestiwn** - Am beth yr ydym ni'n dysgu
 - b. **Tystiolaeth** - pa dystiolaeth sydd yna?
 - c. **Casgliad** - beth ellir ei dynnu o'r wybodaeth hon?
10. Yn bwysicaf oll, **defnyddiwch ddull** cymryd nodiadau yr ydych yn gyfforddus ag ef. Gellwch newid rhwng gwahanol ddulliau neu eu cyfuno hyd yn oed.